Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Ar Ôl Ysgol Caergeiliog**

**Ysgol Sefydledig Caergeiliog**
**Lon Bach**
**Caergeiliog**
**LL65 3NP**



## Dyddiad Cyhoeddi

**7 Ionawr 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb y Tu Allan i'r Ysgol Caergeiliog yn glwb ar ôl ysgol sy'n gweithredu o Ysgol Sefydledig Caergeiliog ar Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 50 o blant o oed ysgol gynradd. Y personau cofrestredig yw Lisa Ellis-Roberts a Carys Edwards. Lowri Owen yw'r person â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 7:45am i 8:30am ar gyfer clwb brecwast ac mae'r clwb ar ôl ysgol ar agor o 3:40pm i 6:00pm. Prif iaith y gwasanaeth yw Saesneg, ond caiff y Gymraeg ei defnyddio hefyd a gall y plant ddewis ym mha iaith yr hoffent gyfathrebu. Ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaeth yn cynnig 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg gan nad yw'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn mwynhau profiadau chwarae a dysgu diddorol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn hyrwyddo eu datblygiad. Mae'r tîm newydd o staff sydd wedi'u penodi yn awyddus, brwdfrydig ac yn cydweithio'n dda â'i gilydd. Caiff ymddygiad cadarnhaol ei hyrwyddo ac mae trefn a strwythur yn galluogi'r plant i deimlo'n ddiogel. Mae'r amgylchedd wedi'i drefnu'n dda. Mae'r arweinwyr yn weledol, yn gefnogol ac yn rhoi newidiadau ar waith. Maent yn ymgynghori â'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cydweithio mewn partneriaethau i ddarparu gwasanaeth y mae'r plant a'u teuluoedd yn cael budd ohono.

### 2. Gwelliannau

Roedd yr arweinwyr wedi bodloni rhai o'r argymhellion a wnaed ar adeg yr arolygiad diwethaf.

- Roedd yr arweinwyr wedi gweithredu ar awgrymiadau a wnaed gan y staff a'r plant ac roedd y rhain wedi'u dogfennu.
- Roedd y plant yn cael cynnig dŵr i'w yfed.

Ers yr arolygiad mae'r arweinwyr wedi gwneud y canlynol

- Cyflwyno gwiriad diogelwch dyddiol, a gwblheir gan y staff.
- Cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwelsom fod angen diweddaru'r datganiad o ddiben a gwnaethom argymhellion mewn perthynas â rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r plant chwarae yn yr awyr agored.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo.  Maent yn dylanwadu'n gryf ar y ffordd maent yn treulio'u hamser ac yn cael budd o'r profiadau cadarnhaol a ddarperir. Roedd y plant yn mwynhau treulio amser gyda'r bobl o'u hamgylch a rhoddwyd cyfleoedd boddhaus iddynt gwblhau tasgau drostynt eu hunain.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau ac yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau.

Roedd y plant yn hapus ac yn fodlon, roeddent yn dylanwadu ar y ffordd roeddent yn treulio'u hamser ac roeddent yn ymwybodol o'r opsiynau a oedd ar gael iddynt. Er enghraifft, casglodd y plant ddroriau storio wedi'u labelu yn cynnwys y gweithgaredd o'u dewis a mynd i eistedd a chwarae'n hapus gyda'u ffrindiau.   Roedd y plant yn mwynhau treulio amser gyda'i gilydd ac roeddent yn cadw'n brysur.  Roedd y plant yn gwybod y byddai eu lleisiau'n cael eu clywed gan fod y staff yn trafod â nhw'n aml ynghylch pa adnoddau roeddent eisiau eu prynu. Dywedodd y plant wrthym eu bod wedi mwynhau creu 'rhestr ddymuniadau' o'r eitemau roeddent eu heisiau; roeddent yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i gymryd rhan.

Caiff y plant eu cadw'n brysur mewn ffordd gadarnhaol a'u hannog i gyfrannu syniadau'n briodol.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae ganddynt berthynas agos â'r bobl o'u cwmpas.

Roedd y plant yn gyfforddus, wedi ymlacio ac wedi setlo'n dda. Gwelsom y plant yn chwilio am bobl gyfarwydd er mwyn cael cymorth. Aeth plentyn i gysgu wrth i'r staff ei gysuro, ac roedd y cysur a gafodd yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddo.  Roedd y plant yn gyfforddus ac wedi ymlacio. Ar ôl amser byrbryd, cafodd y plant ddewis beth roeddent eisiau ei wneud - dewisodd rhai ymlacio ar y soffa, tra bod eraill yn chwarae â'r adnoddau adeiladu ac roedd eraill yn sgwrsio â'r staff. Roeddent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a oedd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt.

Mae'r plant yn hapus ac yn ffurfio cyfeillgarwch â'i gilydd. Mae'r ymdeimlad o adnabod a gânt yn magu hyder ynddynt gan wneud iddynt deimlo'n hapus a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i gydweithio, cymryd eu tro a rhannu.

Roedd y plant yn rhyngweithio ac yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn dda. Roedd y plant a ddewisodd chwarae gyda'r clai yn rhannu'r adnoddau a oedd ar gael; gwnaethant gymryd eu tro i ddefnyddio'r amrywiol eitemau ac yna cymharu'r hyn roeddent wedi'i greu. Roeddent yn derbyn bod yn rhaid iddynt aros eu tro, gan ddangos eu bod yn datblygu strategaethau ymdopi priodol ac yn deall pwysigrwydd gofalu am offer. Arhosodd y plant eu tro wrth gasglu eu bwyd ac aethant ag eitemau i'w rhoi i'w ffrindiau, gan ddangos caredigrwydd tuag at ei gilydd. Gwnaethant drafod a chytuno ar rolau gyda'i gilydd. Er enghraifft, trafododd plant a oedd yn chwarae gêm fwrdd pa liw oedd pawb am fod.

Mae'r plant yn ymwybodol o'r rheolau ymddygiad; maent yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cynnal eu diddordeb ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae maent yn eu mwynhau.

Roedd y plant yn llawn cymhelliant ac yn awyddus i dreulio amser yn cymryd rhan yn y tasgau â ffocws, yn cynnwys lliwio neu weithgareddau crefft. Gwnaethant ganolbwyntio am gyfnod priodol o amser ac archwilio eu hamgylchedd yn rhydd ac yn ddiogel. Gallent ddewis ymlacio neu sgwrsio â'r bobl o'u gwmpas am eu cartref, a'r hyn roeddent wedi bod yn ei wneud yn yr ysgol y diwrnod hwnnw.

Mae'r plant yn dylanwadu ar eu dysgu a'u chwarae'n llwyddiannus.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn datblygu'n gymdeithasol ac yn elwa ar amrywiaeth dda o brofiadau.

Mae'r plant yn ffynnu yn sgîl y strwythur cadarnhaol a oedd yn galluogi'r plant i ennill amrywiaeth dda o sgiliau. Gwelwyd y plant yn defnyddio amrywiaeth o wahanol ddeunyddiau'n hyderus, er enghraifft, deunyddiau crefft ac adnoddau amlgyfrwng. Roedd y plant yn cyflawni pethau drostynt eu hunain ac yn cael eu canmol am eu hymdrechion. Roedd y plant yn sgwrsio â'i gilydd gan ddangos eu bod yn datblygu ac yn dysgu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

Mae'r plant yn meithrin sgiliau effeithiol er mwyn dod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Caiff y staff eu cymell i wella llesiant y plant ac maent yn rhoi arferion cadarnhaol ar waith i gadw plant yn iach ac yn ddiogel.  Maent yn fodelau rôl cadarnhaol ac yn gosod ffiniau realistig. Mae'r staff yn cynllunio i hyrwyddo profiadau chwarae a dysgu'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth o'r ffordd i gadw'r plant yn ddiogel.

Roedd y staff yn gwbl ymwybodol o'r broses i'w dilyn mewn perthynas â diogelu plant. Roeddent yn cael eu cefnogi'n dda gan yr ysgol ac roedd yr holl staff yn hyderus yn eu dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau. Roedd gweithdrefnau trefnus iawn ar waith er mwyn cysylltu â rhieni mewn argyfwng ac roedd gwybodaeth gyswllt yn cael ei diweddaru'n rheolaidd ac ar gael yn hawdd. Roedd y staff yn cofnodi'n glir pryd y cyrhaeddodd y plant, pwy fyddai'n eu casglu a pha amser y gwnaethant adael. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu arfer gorau o ran bwyta'n iach, a chynigiwyd byrbrydau amrywiol yn cynnwys rholiau bara wedi'u llenwi, iogwrt a ffrwythau, gyda dŵr i'w yfed. Roeddent yn rhoi cymorth i'r plant olchi eu dwylo lle y bo'n briodol ac roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn.  Roedd y staff yn sicrhau bod dŵr yfed ar gael i'r plant yn rheolaidd.  Roedd y cyfleoedd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored yn gyfyngedig ac yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Roedd driliau tân wedi'u cynnal yn rheolaidd mewn cydweithrediad â'r ysgol.

Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau cadarn ar waith yn rheolaidd i hyrwyddo llesiant cyffredinol y plant.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn gyson yn eu hymagwedd ac yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad eu hunain.

Roedd y staff yn hawdd mynd atynt ac yn hyrwyddo dealltwriaeth o'r hyn sy'n iawn ac yn anghywir.  Er enghraifft, cytunwyd ar ganlyniadau a'u rhoi ar waith yn dilyn anghytundeb rhwng dau blentyn.  Aeth y staff ati'n gyflym i roi gwybod nad oedd ymddygiad penodol yn dderbyniol ac i gytuno ar ganlyniadau a'u gweithredu er mwyn rheoli ymddygiad annymunol. Roedd y staff yn siarad â'r plant ac yn eistedd gyda nhw yn ystod y gweithgareddau, ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel lliwio. Roeddent yn dangos patrwm o ymddygiad cadarnhaol, fel rhannu a rhyngweithio ag eraill.

Mae'r staff yn gosod rheolau sylfaenol yn gyson ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad y plant drwy gynllunio amrywiaeth rhesymol o brofiadau chwarae a dysgu.

Roedd y staff yn hyderus ac wedi ymlacio, ac yn darparu profiadau llawn hwyl. Er enghraifft, roedd y staff yn annog y plant wrth i rai ohonynt ddewis eu gweithgaredd. Chwaraeodd rhai gêm fwrdd tra bod eraill yn eistedd gyda'i gilydd yn creu strwythurau o flociau adeiladu. Roedd y gweithgareddau yn ystyriol o'r math o wasanaeth ydoedd. Mae'r themâu a'r gweithgareddau yn dilyn patrwm a gall y staff gael gafael ar gefnogaeth a chasglu syniadau gan sefydliadau ymbarél.  Gwnaeth y staff gyfleu eu bod yn teimlo ei bod hi'n bwysig nad oedd y plant yn teimlo eu bod wedi eu cyfyngu gan gynllun manwl o weithgareddau. Roeddent am greu amgylchedd gwahanol iddynt, lle gallent deimlo eu bod yn gallu ymlacio ar ôl diwrnod llawn yn yr ysgol. Roedd y gweithgareddau a gynlluniwyd yn ystyried diddordebau a phersonoliaethau unigol. Roedd y staff yn darparu amgylchedd ieithyddol cyfoethog. Saesneg oedd y brif iaith, ond roedd y plant yn cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r staff yn mynd ati'n briodol i sicrhau bod y plant yn cael ymdeimlad o fwynhad a bod y drefn ddyddiol yn cynnig sefydlogrwydd.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant yn dda ac mae adnoddau o ansawdd da ar gael ar eu cyfer.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a glân.

Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff i sicrhau y caiff y plant eu goruchwylio'n dda. Roedd cofrestri dyddiol yn cael eu cadw ac roedd y plant yn cael eu rhyddhau i ofal oedolyn hysbys, gyda chofnod wedi'i lofnodi i ddangos pwy wnaeth eu casglu. Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau gan yr ysgol ac yn cael eu hadolygu'n flynyddol, ac roedd cofnod i ddangos bod y staff wedi cael gwybod am newidiadau. Yn dilyn yr arolygiad, cyflwynodd yr arweinwyr drefn o gynnal gwiriadau diogelwch dyddiol. Mae'r rhain yn cofnodi unrhyw newidiadau i'r amgylchedd a ph'un a oes angen cymryd unrhyw gamau gweithredu. Roedd yr arferion glanhau yn effeithiol ac yn adlewyrchu arferion hylendid derbyniol. Cafodd tasgau penodol o'r rota lanhau eu dyrannu i'r staff, ac roedd y staff yn ei llofnodi pan oedd y tasgau wedi'u cwblhau.

Mae'r arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod systemau da ar waith i sicrhau gwiriadau diogelwch a chynnal a chadw rheolaidd.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn darparu digon o le a chyfleusterau i ddiwallu anghenion y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd ysgogol a chyfforddus. Mae wedi'i addurno'n dda ac yn gynhwysol, gyda digon o gyfleusterau. Er enghraifft, roedd y toiledau yn hawdd iawn cael gafael arnynt yn y brif ystafell chwarae, ac ar adegau mwy prysur, gallai'r gwasanaeth ddefnyddio prif neuadd yr ysgol. Roedd hyn yn galluogi'r staff i rannu'r plant hŷn a'r plant iau a oedd eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol. Er enghraifft, dewisodd rhai o'r plant hŷn wneud eu gwaith cartref. Nid yw'r ardal awyr agored yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar hyn o bryd ond mae'r arweinwyr yn rhoi mynediad i ardal chwarae awyr agored lle gall y plant fwynhau amser allan yn yr awyr iach.

Gall y plant archwilio'r amgylchedd dan do yn rhydd.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a’r cyfarpar o ansawdd?

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn ac adnoddau sy'n briodol ac yn addas i anghenion y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol dan do addas o ansawdd da ar gael i'r plant.  Mae digon ohonynt ar gael, ac mae'r plant yn cael amrywiaeth dda o ddewis. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau ar gael yn hawdd ac yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau. Mae'r adnoddau sydd ar gael yn sicrhau bod y plant yn cael eu herio a'u hysgogi.  Gwelsom grŵp o blant wrth eu bodd yn chwarae gêm fwrdd. Roedd pob aelod o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod yr eitemau a ddefnyddiwyd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, a bod adnoddau yn cael eu hailgyflenwi'n dda.

Mae'r arweinwyr yn fedrus wrth sicrhau bod adnoddau ar gael yn hawdd ac mewn cyflwr da.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i hyrwyddo arferion diogel ac mae ganddynt weledigaeth bwrpasol ar gyfer eu gwasanaeth.  Mae ganddynt brosesau cadarnhaol ar waith i ystyried y gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwelliannau.  Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff ac yn sicrhau y cânt eu defnyddio'n effeithiol ac yn eu cymell i ddarparu gwasanaeth o ansawdd da.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda.

Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i sicrhau bod y plant yn mwynhau mynychu'r gwasanaeth a bod y gofal a ddarperir wedi'i deilwra i ddiwallu anghenion y teuluoedd.  Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod polisïau effeithiol ar waith a bod y rhain yn cael eu gweithredu'n llawn yn ymarferol. Mae arweinwyr yn datblygu timau yn effeithiol; roedd aelodau newydd o'r staff yn cyflawni eu rolau'n hyderus ac roedd pob aelod o'r staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o arferion gorau presennol, ac maent yn annog y staff i newid ac addasu eu harferion er mwyn datblygu'r gwasanaeth yn rheolaidd. Roedd angen mân ddiwygiad i'r datganiad o ddiben er mwyn adlewyrchu bod AGC bellach yn ystyried plant hyd at ddeuddeg oed.

Mae'r arweinwyr yn weladwy ac ar gael ac yn pennu nodau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn cynnwys y staff yn rheolaidd wrth adlewyrchu ar yr hyn maent eisiau ei wneud ac yn rhoi cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith.

Roedd yr arweinwyr yn nodi meysydd i'w datblygu ac yn cymryd camau cadarnhaol i ddatblygu'r gwasanaeth a rhoi newidiadau ar waith.  Er enghraifft, gwelsom fod y staff a'r arweinwyr wedi amlygu gwaith roedd angen ei wneud ar ddechrau'r tymor, ac roedd y staff yn gwneud cynnydd da â'r tasgau.  Roedd y rhain yn cynnwys tasgau megis diweddaru'r arddangosfeydd ar y waliau mewn partneriaeth â'r plant ac ailgyflenwi a datblygu'r adnoddau a oedd ar gael.  Roedd yr arweinwyr wedi ceisio barn y plant, y rheini a'r staff a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth drwy ddosbarthu holiaduron. Yn dilyn adborth gan rieni, roedd yr arweinwyr wedi ymestyn oriau agor y gwasanaeth. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi'u gwblhau, fodd bynnag, cafodd ei gwblhau'n ddiweddarach ac anfonwyd copi at AGC.

Mae'r arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y gwasanaeth ac yn rhoi newidiadau ar waith er mwyn cyflawni yn unol â blaenoriaethau'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau ac maent yn cyfleu eu disgwyliadau uchel i bawb.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff cymwys a phrofiadol ar gael ar gyfer ystod oedran y plant dan eu gofal, a'u bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol. Gwelsom fod y broses recriwtio yn sicrhau bod y bobl fwyaf priodol wedi cael eu recriwtio ar gyfer eu rolau. Roedd pob aelod o'r staff yn hyderus ac â phrofiad o weithio yn y sector gofal plant. Nodwyd gennym fod y staff yn gymwys ac yn hyderus a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd yn frwd i gyflawni canlyniadau da ar gyfer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r arweinwyr yn ymdrechu i sicrhau gofal parhaus i'r plant; maent yn gosod targedau realistig ac yn cymell y staff i ragori. Mae'r oruchwyliaeth a'r arfarniadau blynyddol yn ystyrlon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a gwelsom fod unrhyw gamau gweithredu a oedd yn angenrheidiol yn cael eu cymryd yn brydlon a bod anghenion hyfforddi yn cael eu nodi a'u diwallu.

Mae'r arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel i'r rheini maent yn eu rheoli.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rheini am lesiant eu plentyn.

Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r rhieni am lesiant eu plentyn. Maent yn gweithredu pan fo angen ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni i sicrhau bod anghenion y plant wrth wraidd popeth a wnânt. Er enghraifft, mewn partneriaeth â rhieni, cafodd diwrnodau un plentyn eu byrhau gan y teimlwyd ei fod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â bod yn y clwb ar ôl ysgol yn hwyrach. Gall y rhieni weld yr holl wybodaeth ofynnol ger y brif fynedfa a chynhyrchir cylchlythyr hefyd sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol a defnyddiol, megis y themâu presennol ac unrhyw ddigwyddiadau pwysig. Mae'r arweinwyr yn ystyried adborth ac yn ymateb iddo mewn modd amserol, er enghraifft, newid yr oriau agor, ac roedd yr arweinwyr wedi rhoi ystyriaeth ofalus i geisiadau'r rhieni i brydau poeth gael eu gweini.

Mae'r arweinwyr yn meithrin ymddiriedaeth gyda'r rhieni ac yn cyfathrebu'n glir â nhw.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dylai'r arweinwyr ystyried y canlynol;

- rhoi mwy o gyfleoedd i'r plant chwarae yn yr awyr agored.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.  Gwnaeth un arolygydd ymweld â'r gwasanaeth ar 3 Hydref 2018 rhwng 4:30pm a 6:00pm ac unwaith eto ar 4 Hydref 2018 rhwng 3:30pm a 5:30pm.

Gwnaethom y canlynol:

- Archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y rhieni a'r staff a oedd yn bresennol;
- ystyried diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd a'r adnoddau ar gyfer y plant;
- rhoi adborth i'r person cofrestredig dros y ffôn ar 7 Tachwedd 2018.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal y Tu Allan i'r Ysgol |
| Person Cofrestredig | Lisa Ellis-Roberts<br>Carys Edwards |
| Person â chyfrifoldeb | Lowri Owen |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 50 |
| Ystod oedran y plant | 3 – 12 oed |
| Oriau agor | 7:45am – 8:30am<br>3:40pm – 6:00pm<br>Dydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod tymor yr ysgol. |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Y ddwy |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Medi 2015 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 03 Hydref 2018 a 04 Hydref 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn llawn. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu gweithio tuag at gynnig gwasanaeth dwyieithog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |